



Mick Antoniw AC  
Cadeirydd Pwyllgor  
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1NA

28 Ebrill 2020

Annwyl Mick,

### **Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Amaethyddiaeth: Sesiwn dystiolaeth**

Diolch am y cyfle i egluro'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Amaethyddiaeth y DU yn y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar 16 Mawrth.

Rwyf wedi nodi camgymeriad yn fy ymateb i'r cwestiynau a ofynnwyd gan Carwyn Jones AC, ynglŷn â'r pryderon a oedd yn parhau i fod gennyf mewn perthynas â darpariaethau ar gyfer nodi ac olrhain anifeiliaid, tenantiaethau amaethyddol a rheoleiddio cynhyrchion organig.

Yr ymateb cywir mewn perthynas â mecanwaith datrys anghydfod ar gyfer tenantiaid yw, gan fod y pwerau cymorth ariannol newydd ar gyfer Gweinidogion Cymru yn y Bil wedi cael eu dileu, y bydd Bil Amaethyddiaeth Cymru sydd i'w gyflwyno yn y Senedd yn darparu cyfrwng deddfwriaethol i sicrhau mynediad ar gynlluniau newydd ar gyfer ffermwyr tenant yng Nghymru.

Hoffwn i gadarnhau nad yw'r mater hwn bellach yn llinell goch. Mae'r ddwy linell goch yn ymwneud â chymalau 32, 36 a 37 mewn perthynas ag olrhain anifeiliaid a rheoleiddio cynhyrchion organig, a pharheir i wneud cynnydd da ynghylch y rhain.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru)  
[Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales](mailto:Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Hoffwn i ymddiheuro am y camgymeriad hwn ac rwy'n gobeithio bod y Pwyllgor yn fodlon ar fy ymateb.

Cofion,

A handwritten signature in black ink that reads "Lesley Griffiths". The signature is written in a cursive style with a large, sweeping 'L' and 'G'.

**Lesley Griffiths AC/AM**

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig  
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs